

24. Darn o **Martha, Jac a Sianco** gan Caryl Lewis

"Dewch nawr te, myn uffarn i, ne bydd hi 'di goleuo cyn i ni gyrradd."

"E...f....fi ff...ff...ffeili gweld..."

"Dewch nôl â'r gole 'na fan hyn, Jac, er mwyn Duw, ne byddwn ni 'di torri'n coese'n tri."

Roedd Jac yn mynd yn ei gyfer a golau'r fflachlamp yn bownsio o glawdd i glawdd wrth iddo hercian lan y lôn.

"Fe ddalwn ni'r diawled wrthi nawr. Ma rhywbeth od yn mynd mla'n 'ma a dwi'n gweud tho chi, Duw â'u helpo nhw pan ga i afael ynddyn nhw."

Gwyliodd Martha gefn Jac yn mynd o'i blaen yn y tywyllwch wedi ei amlinellu yng ngolau'r tortsh. Roedd hi'n dywyll bitsh.

"Jac achan! Dos dim prawf bod neb yn neud dim iddi. Falle bod rhyw lo yn dod ac yn 'i sugno hi yn y nos".

"Pwy lo sy'n dod mewn, fenyw? Rhowch drad yn tir, wir, a peidwch bod mor dwp. Y rhacsyn na drws nesa sy wrthi ynta... gadel gate ar agor a rhoi harne yn y rhesi gwair amser c'nea. Ne'r Wil na ochr arall i Ca' Marged. Tato o'r un rhych yn nhw i gyd. Synnen i fochyn 'u bod nhw'n chwerthin ar 'yn penne ni nawr."

Clywodd Martha Sianco'n gwenwyno y tu ôl iddi.

"Dere mlan nawr te, Sianco bach, dala lan wir."

Cyrhaeddodd Jac a Martha ben y lôn dywyll a oedd yn rhedeg gyda'r clôs ac yn hollti fferm Graig-ddu yn dair: y Banc, Hendre a'r Macyn Pced. Pwysodd y ddau ar y giât er mwyn aros am Sianco a oedd yn dal i straffaglu ei ffordd drwy'r stecs a'r tywyllwch. Cydiai Jac mewn pocer hir yn un llaw - roedd yn mynd i'w ddefnyddio ar gopa unrhyw un y deuai ar eu traws. Wrth i'r ddau edrych i mewn i'r tywyllwch sylwodd Martha fod y fuwch yn y cae wedi codi ar ei thraed. O'r diwedd cyrhaeddodd Sianco â'i gap gwyrdd gwlân yn dynn am ei ben, ei derier yn edrych mas o dan ei siwmpwr gyda'i lygaid bach duon wedi'u serio ar y fuwch yn barod.

"Reit te, yn dawel bach nawr, ewn ni i gwato yn y claw'. Os daw rhywun ar gyfyl y lle 'ma wedyn, fe sbadda i fe!"

ffaelu - methu

yn ei gyfer - yn gyflym

hercian - limping

diawled - devils

amlinellu - outlined

trad yn tir - cyflymu

rhacsyn - dyn drwg

c'nea - cynhaeaf

tato o'r un rhych - all the same


gwenwyno - cwyno

clos - buarth, farmyard

macyn - hances

cwato - cuddio

sbaddu - to castrate



Gwybodaeth

Dechrau'r nofel *Martha, Jac a Sianco* (2004) gan

Caryl Lewis. Enillodd y nofel hon gystadleuaeth Llyfr

y Flwyddyn a chafodd ei haddasu yn ffilm yn 2008.

Hanes dau frawd a chwaer sy'n byw gyda'i gilydd ar fferm yng

nghefn gwlad Ceredigion a geir ynddi. Daw Caryl Lewis, y nofelydd

ifanc, o Geredigion hefyd, ac mae hi wedi cyhoeddi nifer o lyfrau eraill.